# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English*

Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gydymffurfio â rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n esbonio sut y dylai sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau o ran y Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoliadau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Mae copi o'r safonau, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, ar gael o www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog

## 1. Cyflwyniad

Prif nod y ddeddfwriaeth (safonau) yw sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r pwyslais ar gynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gweithiwr unigol i wneud cais am wybodaeth neu wasanaethau yn y Gymraeg. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol bob blwyddyn sy'n nodi'r wybodaeth ganlynol:

| **Cwynion** |
|---|
| Nifer y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno sy'n ymwneud â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. |
| **Sgiliau Cymraeg Cyflogeion** |
| Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw. |
| **Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg** |
| • Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.<br>• Os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn honno, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg. |
| **Swyddi a Hysbysebwyd** |
| Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn ac a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle roedd —<br><br>• Sgiliau Cymraeg yn hanfodol,<br>• Angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd,<br>• Sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu |

- Sgiliau Cymraeg ddim yn angenrheidiol.

Mae pob awdurdod lleol wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n rhestru'r safonau, a'r dyddiad cydymffurfio ar gyfer pob un o'r safonau.

Cytunir a chymeradwyir Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23 gan y Cyngor llawn cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â gofynion statudol y safonau.

Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried yn y Cabinet ar yr 22ain o Fehefin 2023 a'r Cyngor llawn ar y 29ain o Fehefin 2023

Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog erbyn y dyddiad cyhoeddi statudol sef **30 Mehefin 2023.**

## 2. Llwyddiannau

- Hysbysebodd y Cyngor **77** o swyddi Cymraeg hanfodol, a **1222** o swyddi ychwanegol lle'r oedd y Gymraeg yn ofyniad dymunol. Mae nifer y swyddi Cymraeg hanfodol a dymunol a hysbysebwyd yn cynrychioli cynnydd o **15%** ac **89%** yn y drefn honno o gymharu â 2021/22.

- Cyfieithodd Caerdydd Ddwyieithog **13,478,771 o eiriau** yn ystod 2022-23 (dychwelwyd **99.9%** o'r holl geisiadau i'r cleient erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno).

- Derbyniodd prosiect Pencampwr Addysg Gymraeg De-ddwyrain Cymru, gyda chefnogaeth Awdurdodau Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a'r Mentrau Iaith, gyllid gan Lywodraeth Cymru.

- Mae Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor yn cael cefnogaeth tri swyddog ieuenctid Cymraeg eu hiaith ychwanegol mewn partneriaeth â Menter Iaith Caerdydd a'r Urdd.

- Mae Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog wedi'i sefydlu a'i gefnogi'n ariannol gan y Cyngor i rymuso ein pobl ifanc i gyflwyno eu blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth Gymraeg.

- Mae Caerdydd Ddwyieithog, a Fforwm Caerdydd Ddwyieithog, wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) deng mlynedd y Cyngor a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn Rhagfyr 2022.

- Yn 2022-23, cymerodd **1593** aelod o staff ran mewn cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg.

- Mynychodd **253** o aelodau staff Cyngor Caerdydd gyrsiau Cymraeg ffurfiol a ddarparwyd gan Academi Caerdydd a'r fenter Iaith Gwaith.

- Cwblhawyd e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith Cyngor Caerdydd gan **634** o staff yn 2022/23.

- Mae nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg wedi cynyddu **5.9%** ers 2021-22 ac yn cynrychioli **20.06%** o'r gweithlu sydd wedi'i gofrestru ar system AD DigiGOV y Cyngor.

- Dyrannwyd lleoedd Derbyn i **661** o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg ar gyfer mis Medi 2022, sef **17.4%** o gyfanswm y derbyniadau ar draws y ddinas. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o'i gymharu â 2021/22.

- Fe wnaeth dros 32,000 o bobl fynychu Gŵyl Tafwyl yn 2022. Mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi'r ŵyl.

- Cafodd digwyddiadau diwylliannol Cymreig fel Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae a'r Diwrnod Hawliau eu hyrwyddo'n llwyddiannus ar draws y Cyngor.

- Cynhaliodd C4, grŵp siaradwyr a dysgwyr Cymraeg Cyngor Caerdydd, ddigwyddiad Dydd Gŵyl Dewi yn Neuadd y Sir ar 1 Mawrth 2023 a fynychwyd gan dros **40** aelod o staff.

## 3. Gweithio Gartref a Gweithio Hybrid

Mae'r arferion gweithio a sefydlwyd o ganlyniad i argyfwng Covid-19 bellach wedi hen ennill eu plwyf ac mae Cyngor Caerdydd wedi parhau i gefnogi staff i weithio gartref ac i wneud defnydd o gyfleusterau gweithio hybrid ar safleoedd y Cyngor. Mae llawer o adeiladau bellach ar agor ac yn cynnig mwy o fynediad i'r cyhoedd, ond mae gwasanaethau derbynfeydd yn parhau i fod yn sylweddol llai. Mae'r ffordd newydd o weithio yn effeithio ar bob agwedd ar ddarpariaeth gwasanaethau, ond mae darparu gwasanaeth Cymraeg yn dod â rhai heriau penodol.

Cyfathrebir â dinasyddion Caerdydd yn bennaf ar lwyfannau a chyfryngau cymdeithasol digidol. Mae Caerdydd Ddwyieithog wedi parhau i weithio'n agos gyda'r tîm Cyfathrebu i sicrhau bod yr holl gyfathrebu i'r cyhoedd a staff yn ddwyieithog ac wedi'i gyhoeddi yr un pryd. Mae nifer y cyfathrebiadau brys ac wedi eu cyfyngu gan amser wedi gostwng eleni, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfanswm y geiriau sy'n cael eu cyfieithu gan Dîm Caerdydd Ddwyieithog. Fodd bynnag, erys yr angen i gyfieithiadau fod yn gywir a'u dychwelyd yn gyflym er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwybod am bob agwedd o waith y Cyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae mynediad at gyngor a gwasanaethau yn parhau i gael eu hwyluso gan Cysylltu â Chaerdydd gan nad yw llawer o wasanaethau wyneb yn wyneb ar gael gyda staff yn parhau i weithio gartref. Mae'r gwasanaeth yma yn rhoi dewis Cymraeg i bawb sy'n ffonio ac yn darparu ymatebion Cymraeg i ffurflenni cyswllt sy'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg drwy wefan y Cyngor. Mae tîm Caerdydd Ddwyieithog yn cynorthwyo swyddogion unigol y Cyngor drwy recordio negeseuon dwyieithog ar gyfer eu ffonau symudol er mwyn sicrhau bod pob dinesydd yn gallu delio â'i ymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio llwyfan Microsoft Teams ar gyfer cynnal cyfarfodydd rhithwir. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd bellach wedi ei gynnwys ar gyfer y platfform hwn ac roedd Cyngor Caerdydd yn rhan o'r grŵp ymgynghori wrth i'r adnodd hwn gael ei ddatblygu. Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd dros Microsoft Teams ar gyfer staff y Cyngor a chleientiaid allanol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n mynychu cyfarfodydd rhithwir yn gallu cyfrannu yn eu dewis iaith. Cefnogir cyfarfodydd Cyngor a gaiff eu gwe-ddarlledu gan gyfieithu ar y pryd a'u darlledu ar fersiynau Cymraeg a Saesneg gwefan y Cyngor a'u cefnogi gan drydar yn Gymraeg a Saesneg ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

## 4. Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd

Lansiwyd Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ddiwygiedig Cyngor Caerdydd ar 1 Mawrth 2021 a 2022/23 yw ail flwyddyn ei gweithredu.

O ganlyniad i'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg, mae holl staff y Cyngor bellach yn cael cyfle i ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg. Cynhyrchwyd yr e-fodiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 gan Academi Cyngor Caerdydd i ddarparu cwrs blasu ac mae hwn wedi'i gwblhau gan **1340** o aelodau staff yn 2022/23.

Yn ychwanegol mae **253** o'r staff wedi cwblhau cyrsiau hyfforddi Cymraeg mwy datblygedig a ddarperir gan Academi Caerdydd a'r cynllun Iaith Gwaith. Gan gynnwys yr e-fodiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1, mae nifer staff Cyngor Caerdydd sydd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant iaith Gymraeg yn 2022/23 wedi cynyddu **49%.**

Mae'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg hefyd wedi cyflwyno system o asesiadau gweithle a arweinir gan reolwyr i fesur angen a chapasiti o ran darparu gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r dogfennau canllaw canlynol wedi'u llunio er mwyn helpu i gynnal yr asesiadau hyn ac i ddatblygu a recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg:

- Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol.
- Gweithdrefnau Recriwtio, Cyfweld a Dethol a'r Iaith Gymraeg.

- Dewislen gynhwysfawr o opsiynau hyfforddiant iaith Gymraeg.

Rhaid i’r holl rolau yng Nghyngor Caerdydd sy'n delio â chwsmeriaid gynnwys sgiliau Cymraeg a/neu iaith Gymunedol fel gofyniad dymunol.

O ganlyniad i'r mesurau a gyflwynwyd gan y strategaeth Sgiliau Iaith, cofnododd **20.06%** o staff y Cyngor (nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion) sydd wedi cofnodi ar y system AD DigiGOV fod ganddynt ryw lefel o sgiliau Cymraeg ac mae nifer y swyddi a hysbysebir fel rhai Cymraeg hanfodol a Chymraeg dymunol wedi cynyddu **15%** a **89%** yn y drefn honno. Er nad yw pob aelod o staff wedi'i gofrestru ar y system DigiGOV, mae nifer yr aelodau staff sy’n dweud bod ganddynt sgiliau Cymraeg yn cynrychioli **15.11%** o holl weithlu'r Cyngor (nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion) yn 2022-23.

Mae adolygiad o'r gefnogaeth a'r gweithdrefnau sydd ar gael i reolwyr y Cyngor wrth recriwtio ar gyfer staff sydd â sgiliau Cymraeg yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu hasesu er mwyn gwella gweithdrefnau recriwtio'r Cyngor ymhellach.

## 5. Datblygu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27

Lansiwyd y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 ddiwygiedig yn Ebrill 2022. Mae'r strategaeth, a'i gynllun gweithredu, yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae’n dilyn ei dair thema:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae strategaeth Caerdydd Ddwyieithog hefyd yn cefnogi Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg Cyngor Caerdydd 2022-31 (CSCA) gydag amcanion ar y cyd wedi'u nodi yn ei chynllun gweithredu ategol.

Cyflawnwyd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 a'i chynllun gweithredu ategol mewn partneriaeth ag aelodau Fforwm Caerdydd Ddwyieithog. Sefydlwyd y Fforwm i gefnogi'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf ac mae iddo gynrychiolaeth o blith ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd, darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, cyrff diwylliannol, a sefydliadau Cymraeg fel yr Urdd, Mudiad Meithrin a Menter Caerdydd.

## 6. Argymhellion ar gyfer Strategaeth Caerdydd Dwyieithog 2022-27

Daeth nifer o argymhellion i law ar ôl yr adolygiad annibynnol o'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf yn 2022. Mae'r argymhellion hyn wedi'u hymgorffori yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27.

- ***Argymhelliad 1: Data Cyfrifiad 2021***
  *Dylid adolygu'r Strategaeth newydd yn dilyn cyhoeddi data'r Cyfrifiad ar y Gymraeg yn 2022/23 gan graffu'n feirniadol ar dargedau, gan eu haddasu yn ôl yr angen. Bydd angen bod yn barod i weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ymateb i her mewn unrhyw faes demograffig penodol a chynnig rhai targedau newydd.*

  Mae canlyniadau cyntaf data Cymraeg Cyfrifiad 2021 wedi dod i law ac wedi cadarnhau cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd ers 2011. Adroddir bod 12.2% o boblogaeth Caerdydd yn siaradwyr Cymraeg yn y Cyfrifiad - cynnydd o 1.1%. Mae hyn yn darparu gwaelodlin o 44,213 o bobl sydd fymryn yn uwch na'r amcanestyniad a wnaed i gefnogi'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wreiddiol. Mae'r cynnydd blynyddol gofynnol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 wedi'i ddiwygio o 1.5% i 1.25% - cynnydd o 1,960 dros oes 5-mlynedd y strategaeth, neu 392 y flwyddyn.

- ***Argymhelliad 2: Plant a phobl ifanc***
  *Gydag adolygiadau o wasanaethau ieuenctid y Cyngor yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, ynghyd â'r datblygiadau gyda Chaerdydd sy'n Dda i Blant, mae cyfle i roi cynlluniau ar waith nawr i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y 5-10 mlynedd nesaf. Dylai'r ymarfer mapio i nodi bylchau yn y ddarpariaeth y cyfeirir ati yn y CSCA drafft, (Amcan 1, Deilliant 5), arwain yn uniongyrchol at fuddsoddiad cymesur mewn gwasanaethau ac adnoddau Cymraeg sy'n cyd-fynd â gweledigaeth y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Strategaeth Hybu newydd.*

  Mae'r camau a gwblhawyd yn 2022/23 i gefnogi datblygiad darpariaeth ieuenctid Gymraeg yn cynnwys hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg i blant a phobl ifanc ar Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2022, sefydlu Fforwm Ieuenctid Dwyieithog Caerdydd a grŵp ieuenctid iaith Gymraeg, a chyllido tri swyddog ieuenctid Cymraeg mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, Menter Caerdydd, a'r Urdd. Mae darpariaeth Cymraeg i bobl ifanc wedi'i frandio fel CFTi.

- ***Argymhelliad 3: Fforwm Caerdydd Ddwyieithog***
  *Cryfder y Fforwm yw ei gyfathrebu a'i gysylltiadau â phartneriaid/rhanddeiliaid. Mae angen ystyried y ffordd orau o gynnwys:*

  ***(i)*** *swyddogion o'r Cyngor (Addysg, Caerdydd sy'n Dda i Blant a Gwasanaethau Ieuenctid yn benodol) i rannu gwybodaeth ac arfer da a sicrhau cyd-ddealltwriaeth o nodau;*

***(ii)*** *sylfaen ehangach o bartneriaid e.e. busnes ac economi.*

Mae swyddogion o’r adran Addysg, Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, Addewid Caerdydd, y Tîm Cydraddoldeb a Dinas sy’n Dda i Blant wedi ymuno â Fforwm Caerdydd Dwyieithog i hwyluso trafodaethau â phartneriaid a rhannu dealltwriaeth o flaenoriaethau a nodau. Bydd cynrychiolaeth ar gyfer busnes Caerdydd yn cael ei ddarparu gan Dîm Sector Preifat Comisiynydd y Gymraeg. Mae cynrychiolwyr o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Fforwm Trydydd Sector Caerdydd hefyd wedi ymuno â Fforwm Caerdydd Dwyieithog.

- ***Argymhelliad 4: Mesur effaith***
  *Er mwyn gallu mesur cynnydd y strategaeth yn effeithiol erbyn 2027, dylid ystyried cyngor Comisiynydd y Gymraeg ar asesu'r strategaeth ynghyd â'r enghreifftiau ymarferol o gasglu tystiolaeth a roddir gan bartneriaid. Dylid gwneud penderfyniad ynglŷn â'r dystiolaeth a allai ddangos effaith ymyriadau, o ran newid mewn ymddygiad/agwedd/defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â'r hyn y mae llwyddiant yn ei olygu mewn termau meintiol.*

  Mae hyn wedi'i gynnwys fel cam gweithredu o dan Thema 3 yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Dwyieithog 2022-27 ac mae trafodaethau â Chomisiynydd y Gymraeg a phartneriaid Fforwm Caerdydd Dwyieithog yn mynd rhagddynt i asesu y ffordd fwyaf effeithiol o fesur effaith ymyriadau Strategaeth Caerdydd Dwyieithog 2022-27 a’u gweithrediad.

- ***Argymhelliad 5: CSCA 2022-31 (Deilliannau 1 a 5)***
  *Yn dilyn y broses ymgynghori ar y Strategaeth Hybu a'r CSCA, dylid sicrhau cysylltiadau cryfach rhwng y ddwy strategaeth fel y gellir croesgyfeirio'r nodau strategol yn hawdd wrth iddynt ddatblygu'n gamau ymarferol (yn benodol Deilliant 1 a 5 y CSCA).*

  Mae Strategaeth Caerdydd Dwyieithog 2022-27 wedi’i llunio i gyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 y Cyngor. Mae camau gweithredu a thargedau wedi'u diwygio i adlewyrchu'r targedau a gyflwynwyd yn y CSCA.

- ***Argymhelliad 6: Caerdydd Dwyieithog/Bilingual Cardiff***
  *Dylai'r Cyngor ehangu adnoddau tîm Caerdydd Dwyieithog. Gallai cyngor polisi ac arbenigedd gan y tîm ychwanegu gwerth a darparu mewnbwn gwerthfawr a sicrwydd o ran cydymffurfiad wrth i adrannau eraill gynllunio eu gwasanaethau yn unol â nodau strategol y Cyngor.*

  Mae tîm Caerdydd Dwyieithog wedi'i ailstrwythuro i dri thîm o Uwch Gyfieithwyr dan arweiniad Prif Gyfieithydd. Mae'r strwythur hwn yn caniatáu mwy o gyfleoedd cynhyrchu incwm a chapasiti o fewn y tîm cyfieithu. Sefydlwyd rôl Swyddog Polisi Caerdydd Dwyieithog hefyd i gefnogi gwaith polisi Caerdydd Dwyieithog gan gynnwys cynorthwyo cyfarwyddiaethau gydag asesu effaith polisïau ar y Gymraeg.

## 7. Plant a Phobl Ifanc

Mae camau gweithredu a mentrau a gyflawnwyd drwy Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022/23 er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i Blant a Phobl Ifanc wedi'u brandio o dan CFTi.

- **Diwrnod Hawliau'r Gymraeg**
  Cefnogodd Cyngor Caerdydd ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer Diwrnod Hawliau'r Gymraeg i ganolbwyntio ar y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer pobl ifanc. Mae'r cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gafodd ei adrodd yng Nghyfrifiad 2021 yn dangos effaith bositif addysg Gymraeg yn y ddinas. Ond mae cyfleoedd i ddefnyddio ac ymgysylltu â'r iaith y tu allan i'r ysgol, ac mewn lleoliadau cymdeithasol hefyd yn hanfodol bwysig i feithrin balchder yn yr iaith fel rhan o hunaniaeth pobl ifanc. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yw un o nodau craidd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a gall cefnogi pobl ifanc i gymdeithasu a rhyngweithio yn Gymraeg ddim ond cefnogi hyn.

- **CFTi**
  Mae brand CFTi wedi ei ddatblygu ar gyfer darpariaeth Gymraeg i bobl ifanc yng Nghaerdydd er mwyn ei wneud yn fwy amlwg a deniadol. Mae'r brand hwn yn caniatáu i'r ddarpariaeth hon gael ei marchnata a'i chyflwyno mewn modd cydgysylltiedig. Mae nifer o fentrau, gan gynnwys amcanion o strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27, bellach yn cael eu darparu fel rhan o frand CFTi, a darperir rhagor o wybodaeth isod:

  **Darpariaeth Gymraeg - Ymgynghori**
  Mae ymgynghoriad gyda chefnogaeth Menter Caerdydd a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Caerdydd wedi bod ar y gweill i ofyn i bobl ifanc yng Nghaerdydd am ddarpariaeth Gymraeg a'r math o ddigwyddiadau a gweithgareddau yr hoffent eu gweld. Cafwyd dros 1200 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu yng nghyfarfod Fforwm Caerdydd Ddwyieithog ym mis Mai 2023.

  **Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog**
  Sefydlwyd Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog gyda chynrychiolwyr o dair ysgol uwchradd Gymraeg Caerdydd. Mae'n cwrdd bob pythefnos yn yr Hen Lyfrgell yn yr Ais. Mae'r Fforwm yn datblygu rhaglen o ddarpariaeth a gweithgarwch ac yn cael eu cefnogi gan gyllideb ddigwyddiadau a ddarperir gan Gyngor Caerdydd. Mae aelodau'r Fforwm wedi bod yn rhan o benwythnos cynllunio yn Llangrannog yn ddiweddar a bydd yn datblygu calendr o amrywiol weithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc Caerdydd.

  Swyddogion Ieuenctid Iaith Gymraeg
  Mae Cyngor Caerdydd wedi ariannu tri swyddog ieuenctid newydd Cymraeg mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, Menter Iaith Caerdydd, a'r Urdd. Mae pob gweithiwr ieuenctid wedi'i leoli yn un o ysgolion uwchradd Cymraeg Caerdydd. Ar hyn o bryd maen nhw'n datblygu ystod o nosweithiau Cymraeg i'w cynnal mewn canolfannau ieuenctid yng Nghaerdydd a grŵp ieuenctid Cymraeg sydd wedi'i leoli yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro drwy bartneriaeth Fforwm Caerdydd Ddwyieithog.

Hefyd mae mentoriaid ar gyfer pobl ifanc wedi'u sefydlu yn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg Caerdydd er mwyn darparu cefnogaeth un i un i ddisgyblion.

**Digwyddiadau Cymraeg i Bobl Ifanc**
Mae Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog, a gefnogir gan y tri gweithiwr ieuenctid sy'n cael eu hariannu gan Gyngor Caerdydd, yn datblygu ystod o nosweithiau Cymraeg i'w cyflwyno mewn canolfannau ieuenctid ledled y ddinas. Bydd y ddarpariaeth gychwynnol yn cael ei dargedu at ddisgyblion o dair ysgol uwchradd Gymraeg Caerdydd cyn cael ei hehangu i gynnwys disgyblion o ysgolion uwchradd Saesneg sy'n cymryd y Gymraeg fel pwnc.

Mae clybiau Ieuenctid yn ystod oriau ysgol ac ar ôl ysgol hefyd wedi eu sefydlu yn ysgolion uwchradd Cymraeg Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro.

- **Gyrfaoedd Cymraeg**
Bydd digwyddiad i hybu'r Gymraeg a sgiliau iaith Gymraeg gyda disgyblion Blwyddyn 9 yn cael ei gynnal ym Mehefin 2023. Mae'r gwaith o ddatblygu'r digwyddiad hwn wedi bod yn mynd rhagddo yn 2022-23 ac wedi cael cefnogaeth gan Fforwm Caerdydd Ddwyieithog a grŵp llywio pwrpasol o blith partneriaid y Fforwm.

Mae'r digwyddiad hwn yn dilyn y digwyddiad Gyrfa Gymraeg a gynhaliwyd yn 2020. Bydd cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o ddiwydiannau a sectorau yn bresennol i hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ac i rannu eu profiad o sut yr helpodd yr iaith nhw yn eu gyrfaoedd. Bydd hyfforddiant, prentisiaethau a chyflogaeth yn cael ei gynnwys er mwyn caniatáu i'r disgyblion fynychu i weld yr ystod lawn o gyfleoedd sydd ar gael. Mae partneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn rhoi gwerth ar ac yn chwilio am ymgeiswyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg a bydd y digwyddiad hwn yn dangos pa mor bwysig y gall y Gymraeg fod ar gyfer datblygu gyrfa.

## 8. Pencampwr Addysg Gymraeg y De-ddwyrain

Mae Pencampwr Adddysg Gymraeg y De-ddwyrain yn fenter sy'n bartneriaeth gan Awdurdodau Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a’r Mentrau Iaith. Mae datblygiad prosiectau’r Pencampwr wedi'i hwyluso gan Gaerdydd Ddwyieithog yn 2022-23 ac mae'r cyllid ar gyfer 2023-24 wedi'i gytuno gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Pencampwr yn gweithio gyda swyddogion iaith ac addysg awdurdodau lleol a'r Mentrau Iaith i ddatblygu a chynnal rhwydweithiau ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Y prif ffocws yw cynyddu hygyrchedd darpariaeth Gymraeg a'i hyrwyddiad gyda rhieni a chymunedau. Bydd y Pencampwr yn mapio'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd a'r targedau sy'n cael eu cyflwyno yn CSCAau yr awdurdodau lleol er mwyn cynyddu nifer y disgyblion sy'n mynd i addysg Gymraeg.

Mae'r Pencampwr wedi cael ei recriwtio a bydd yn dechrau gweithio ym mis Ebrill 2023.

Ymhlith y prosiectau sydd ar waith ar hyn o bryd i gefnogi gwaith y Pencampwr mae:

- Hyrwyddo addysg Gymraeg i gymunedau lleiafrifoedd ethnig.
- Hyrwyddo a datblygu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymraeg.
- Asesiad o dargedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdodau Lleol ar lefel ranbarthol.
- Mapio'r ddarpariaeth addysg Gymraeg bresennol.

## 9. Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA) 2022-2031

**Gweledigaeth y CSCA: Caerdydd wirioneddol ddwyieithog**
Byddwn yn sicrhau twf ein sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r hyder a'r awydd i ddefnyddio eu holl ieithoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Gallwch weld CSCA 2022-31 ar wefan y Cyngor.

**Datblygu'r CSCA a Chynllun Gweithredu'r CSCA**
Mae Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg 2022-31 wedi ei roi ar waith ers Ebrill 2022 gyda'r targed ar gyfer Caerdydd bod rhwng 25% a 29% o'r disgyblion mewn addysg Gymraeg erbyn 2031-32. Datblygwyd cynllun gweithredu i gefnogi ei gyflawni gyda chefnogaeth is-grwpiau ar gyfer pob un o 7 Deilliant y CSCA. Cefnogwyd yr is-grwpiau hyn gan Dîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog a phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog. Cytunwyd ar gynllun gweithredu'r CSCA gan Fforwm Addysg Gymraeg y Cyngor fis Tachwedd 2022 a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol yn Rhagfyr 2022.

Pennaeth Caerdydd Ddwyieithog sy'n cadeirio is-grŵp Deilliant 5 - cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i leoliadau ysgol. Mae'r Deilliant hwn yn croes-gyffwrdd yn sylweddol gyda thema strategol Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Unwyd yr is-grŵp a sefydlwyd yn flaenorol i gefnogi'r thema strategol hon gydag is-grŵp Deilliant 5 er mwyn ailgyfeirio partneriaid Caerdydd Ddwyieithog a chynnwys camau ategol o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yng nghynllun gweithredu'r CSCA.

**Cofrestru Disgyblion**
Cynyddodd nifer y disgyblion a gofrestrwyd mewn Dosbarthiadau Derbyn Cymraeg yn gyson rhwng 2007/08 a 2012/13, er i ganran y cyfanswm a dderbyniodd le amrywio. Mae niferoedd a chanrannau ers hynny wedi amrywio, ond gyda'r duedd gyffredinol tuag at gynnydd yn y ddau. Mae nifer y disgyblion yn cofrestru yn 2022/23 yn debyg iawn i'r nifer yn 2021/22, er bod hyn yn dal i fod yn ostyngiad bach ar y nifer a'r ganran uchaf o ddisgyblion a gofrestrodd mewn dosbarthiadau derbyn Cymraeg yng Nghaerdydd yn 202/21. Gan fod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y disgyblion a gofrestrir mewn dosbarthiadau Cymraeg â'r boblogaeth disgyblion, sy'n gallu cynyddu neu ostwng, mae cynnydd yn y ganran yn fesur mwy priodol o lwyddiant wrth hybu addysg Gymraeg.

| *Blwyddyn Ysgol* | *Nifer derbyn gwirioneddol (C)* | *Nifer derbyn gwirioneddol (C, S a Ffydd)* | *% nifer derbyn gwirioneddol (C)* | *Blwyddyn Ysgol* | *Nifer derbyn gwirioneddol (C)* | *Nifer derbyn gwirioneddol (C, S a Ffydd)* | *% nifer derbyn gwirioneddol (C)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *2007/08* | *519* | *3,463* | *15.0%* | *2015/16* | *690* | *4,335* | *15.9%* |
| *2008/09* | *555* | *3,474* | *16.0%* | *2016/17* | *744* | *4,340* | *17.1%* |
| *2009/10* | *572* | *3,683* | *15.5%* | *2017/18* | *707* | *4,098* | *17.3%* |
| *2010/11* | *594* | *3,859* | *15.4%* | *2018/19* | *702* | *4,125* | *16.9%* |
| *2011/12* | *651* | *4,019* | *16.2%* | *2019/20* | *683* | *4,119* | *16.6%* |
| *2012/13* | *686* | *4,221* | *16.3%* | *2020/21* | *749* | *4,136* | *18.1%* |
| *2013/14* | *678* | *4,256* | *15.9%* | *2021/22* | *657* | *3,789* | *17.3%* |
| *2014/15* | *706* | *4,246* | *16.6%* | *2022/23* | *661* | *3,799* | *17.4%* |

***Tabl 1: Niferoedd a chanran y disgyblion a dderbyniwyd i addysg cyfrwng Cymraeg o 2007/08 i 2022/23***

Dyrannwyd lleoedd Derbyn i **661** o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg ar gyfer mis Medi 2022, sef **17.4%** o gyfanswm y derbyniadau ar draws y ddinas. Mae hyn yn gynnydd bychan iawn o ran nifer a chanran o'r flwyddyn flaenorol.

Mae data dewis cynnar ar nifer y disgyblion fydd yn mynd i Ddosbarth Derbyn fis Medi 2023 yn awgrymu gostyngiad yng nghyfanswm nifer y disgyblion y dyrennir lle iddynt mewn ysgol gynradd Gymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu cwymp pellach yn y gyfradd genedigaethau.

Amcanestynir gostyngiad pellach yng nghyfanswm y niferoedd Derbyn ym mis Medi 2024. Disgwylir wedyn i'r niferoedd Derbyn godi ychydig ym mis Medi 2025, ond gan barhau'n is na'r nifer Derbyn yn 2023. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod hyn yn debygol o arwain at ostyngiad pellach yn y niferoedd gwirioneddol o ddisgyblion sy'n mynd i addysg Gymraeg. Fodd bynnag, golyga hyn fod mwy o leoedd gwag i gyfran uwch o'r boblogaeth gofrestru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer Dosbarth Derbyn. Gallai cyfanswm nifer y lleoedd Cymraeg sydd ar gael adeg mynediad i


addysg gynradd ledled y ddinas gynnig lle felly i tua 27% o’r boblogaeth ddisgyblion a amcanestynir yn 2024 a 2025. Mae digon o gapasiti yn y sector cynradd Cymraeg felly, i ganiatáu cynnydd sylweddol o ran niferoedd derbyn.

## 10. Cyfieithu Cymraeg

Dychwelodd Caerdydd Ddwyieithog **99.9%** o’r ceisiadau cyfieithu erbyn y terfynau amser y cytunwyd arnynt. Cyfanswm y geiriau gafodd eu cyfieithu (**13,478,771 o eiriau**) yw'r cyfanswm cyfieithu blynyddol ail uchaf i gael ei gwblhau gan Gaerdydd Ddwyieithog yn dilyn y cyfanswm uchaf erioed a gwblhawyd yn 2021-22.

Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cefnogi nifer o bartneriaid allanol fel Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd drwy gyfieithu dogfennau a chyfieithu ar y pryd. Yn 2022/23, cwblhaodd tîm Cyfieithu Caerdydd Ddwyieithog ychydig yn fwy o waith ar gyfer partneriaid allanol (**6,892,594 o eiriau**) na chyfanswm y gwaith ar gyfer Cyngor Caerdydd (**6,586,177 o eiriau**). Mae hyn yn dyst i ymroddiad a gwaith caled y Tîm Cyfieithu wrth gyflawni gwaith o'r safon uchaf i gwsmeriaid mewnol ac allanol ac i roi cymorth a chefnogaeth hanfodol i'n partneriaid ar draws de-ddwyrain Cymru.

## Nifer y geiriau a gyfieithwyd gan Caerdydd Ddwyieithog 2005/06 – 2022/23



## 11. Cwynion yn erbyn Safonau'r Gymraeg

Yn ystod 2022/23, derbyniwyd cyfanswm o **5** cwyn gan y cyhoedd yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg. Pa un a dderbyniwyd cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, aethpwyd i'r afael â hwy yn unol â'r Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol.

Roedd y Cyngor hefyd yn destun **9** ymchwiliad newydd i fethiant posibl i gydymffurfio â'r safonau dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn 2022-23, derbyniodd y Cyngor:

- **5** ymchwiliad sy'n parhau.
- **4** ymchwiliad lle cytunwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg nad oedd pwnc yr ymchwiliad yn dod o dan gyfrifoldeb y Cyngor ac sydd felly wedi'u cau.

## 12. Swyddi a hysbysebwyd yn 2022-23

Yn ystod 2022/23 hysbysebwyd **2184** o swyddi, cynnydd o **8.2%** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- Hysbysebwyd **77** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, cynnydd o **15%** ar ffigur 2021/22.
- Hysbysebwyd **1222** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, cynnydd o **89%** ar ffigur 2020/21.
- Hysbysebwyd **41% (885)** o swyddi lle ystyriwyd nad oedd angen sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. Mae hyn yn cymharu â **64%** o swyddi yn 2021/22.

Sylwer bod y ffigurau hyn **yn ymwneud â swyddi nad ydynt yn swyddi ysgol.**

## 13. Hyfforddiant Iaith Gymraeg a chyrsiau hyfforddi Cyfrwng Cymraeg

Yn 2022–23, cymerodd 1593 aelod o staff ran mewn cyrsiau hyfforddi Cymraeg, ac o'r rhain:

- cwblhaodd **1340** aelod o staff e-fodiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 Academi Caerdydd

- mynychodd **197** aelod o staff gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a ddatblygwyd yn fewnol gan Academi Cyngor Caerdydd ac mae hyn yn cynnwys cyrsiau blasu a chyrsiau byr (**102** mynychwr) a chyrsiau dwys 120 awr (**95** mynychwr).

- cwblhaodd **12** aelod o staff y cwrs ar-lein 60 awr i ddechreuwyr drwy'r cynllun 'Iaith Gwaith'.

- cwblhaodd **44** aelod o staff y cwrs ar-lein 10 awr i ddechreuwyr drwy'r cynllun 'Iaith Gwaith'.

Ar ben hyn:

- Cwblhaodd **634** aelod o staff e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith newydd Cyngor Caerdydd yn **2022-23**.

Caiff nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith eu monitro’n agos a chaiff cofnodion unigol eu cadw ar System AD fewnol y Cyngor (DigiGOV).

Mae safon rhif 128 wedi’i chyflwyno i Gyngor Dinas Caerdydd, sy’n nodi bod yn rhaid i ni ddarparu hyfforddiant i staff yn Gymraeg yn y meysydd canlynol, os cânt eu darparu yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;

- Rheoli perfformiad;

- Cwynion a gweithdrefnau disgyblu;

- Sefydlu;

- Delio â’r cyhoedd; a

- Iechyd a diogelwch

Mae trefniadau ar waith i sicrhau y gall staff wneud cais i dderbyn eu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safon 128. Yn 2022-23 ni chafwyd unrhyw geisiadau am hyfforddiant yn Gymraeg. Cyflwynir y cyrsiau canlynol yn Gymraeg:

- Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (modiwl ar-lein)

- Seiberddiogelwch 1, 2 a 3 (modiwl ar-lein)
- Hawliau Plant (modiwl ar-lein)
- Ymwybyddiaeth Iaith (modiwl ar-lein)
- Gwasanaeth Cwsmeriaid (modiwl ar-lein)
- Bob’s Business: GDPR (modiwl ar-lein)
- Ymwybyddiaeth Twyll (modiwl ar-lein)
- Polisi a Gweithdrefn Disgyblu (modiwl ar-lein)

Mae Academi Caerdydd yn bwriadu ychwanegu cwestiwn penodol ar gyfrwng cyflwyno i'r broses gofrestru yn y dyfodol i sicrhau bod hyfforddiant yn Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a bod staff yn ymwybodol o'u hawl i dderbyn hyfforddiant yn y meysydd uchod, yn Gymraeg. Lle mae'r galw'n ddigonol, byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant mewnol yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.

## 14. Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Gyda datblygiad y system AD (DigiGOV) a’r cyfle i aelodau o staff ddilysu eu data personol eu hunain, mae hyn wedi galluogi’r Cyngor i gofnodi sgiliau Cymraeg (ac ieithoedd eraill) y staff. Ar 31 Mawrth 2023, nodwyd bod **6580** o aelodau staff (nad ydynt mewn ysgolion) yn cael eu cyflogi gan Gyngor Caerdydd, ac o’r rhain, dilysodd cyfanswm o **4,956** eu cofnodion ar y system AD. O’r rhain mae **994** aelod o staff wedi nodi bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn yn gynnydd ar y nifer a adroddwyd yn 2021/22 (**939**) ac mae'n cynrychioli **20.06%** o'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar y system neu **15.11%** o weithlu cyfan y Cyngor.

| | Lefelau Hyfedredd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth | Lefel Mynediad | Ysgolion Sefydledig | Canolradd | Uwch | Hyfedr | Cyfanswm | Canran staff y gwasanaeth |
| OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU | 187 | 63 | 46 | 36 | 38 | 370 | 15.88% |
| GWASANAETHAU PLANT | 58 | 23 | 13 | 7 | 13 | 114 | 19.32% |
| DATBLYGU ECONOMAIDD | 56 | 16 | 20 | 9 | 13 | 114 | 8.17% |
| ADDYSG A DYSGU GYDOL OES (ac eithrio ysgolion) | 61 | 19 | 15 | 8 | 27 | 130 | 16.17% |
| LLYWODRAETHIANT A GWASANAETHAU CYFREITHIOL | 11 | 4 | 4 | 5 | 8 | 32 | 32.32% |
| PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU | 13 | 7 | 0 | 4 | 19 | 43 | 39.45% |
| CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD | 28 | 7 | 6 | 2 | 3 | 46 | 9.77% |
| ADNODDAU | 66 | 24 | 11 | 17 | 27 | 145 | 18.54% |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | Canran y staff Corfforaethol |
| **Cyfanswm** | **480** | **163** | **115** | **88** | **148** | **994** | **15.11%** |

Mae nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi cynyddu gan **5.9%** ers 2021-22 (**994 yn 22/23** o gymharu â **939 yn 21/22**). Priodolir y cynnydd hwn i godi ymwybyddiaeth, y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog (sy'n cynnwys targed i gynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg) a chyrsiau Cymraeg a ddarperir yn fewnol drwy ein tiwtor Cymraeg mewnol yn ogystal â'r Cynllun 'Iaith Gwaith'). Croesawyd y cynnydd yn ystod 22/23, sydd

wedi bod yn flwyddyn anodd i staff oherwydd pandemig COVID-19, a roddodd lawer o staff o dan bwysau yn y gwaith a gartref. Atgoffir staff yn rheolaidd i ddiweddaru eu cofnodion manylion personol ar DigiGOV, ac mae'r rhain yn cynnwys dewis iaith a hyfedredd yn y Gymraeg.

## 15. Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

Mae Fforwm y Gymraeg gyda chefnogaeth Cyngor Caerdydd – mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Choleg Caerdydd a’r Fro - wedi cwrdd yn 2022/23 i barhau ag amcanion Mwy na Geiriau.

Yn ystod 2022-23 mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymuno â'r Fforwm ac mae hyn yn adlewyrchu mwy o ffocws ar ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio presennol ym maes gofal cymdeithasol. Trafodwyd nifer o themâu a chamau gweithredu ac mae Cyngor Caerdydd wedi rhannu adnoddau fel ei e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith, y Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg, a chanllawiau ar recriwtio a hyfforddi staff Cymraeg eu hiaith gyda'r partneriaid. Bydd aelodaeth yn cael ei hehangu ymhellach i gynnwys darparwyr hyfforddiant ychwanegol, a phartneriaid addysg uwch ac addysg bellach i ddatblygu a gweithredu mentrau recriwtio i annog siaradwyr Cymraeg i ymuno â’r maes gofal cymdeithasol. Mae cynllun gweithredu a Chylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer partneriaid yn cael eu datblygu i gefnogi'r amcan hwn.

## 16. Monitro a Goruchwylio Cydymffurfiaeth â’r Safonau

**CYDLYNWYR A PHENCAMPWYR Y GYMRAEG**

Mae gan y Cyngor rwydwaith o gydlynwyr a phencampwyr y Gymraeg ledled ein Cyfarwyddiaethau a’n Gwasanaethau amrywiol, sy’n cefnogi gwaith tîm Caerdydd Ddwyieithog o ran gweithredu Safonau’r Gymraeg a hyrwyddo’r Gymraeg yn fewnol. Mae swyddogaeth rhwydwaith y cydlynwyr yn cynnwys:

- Cynorthwyo eu gwasanaeth neu eu cyfarwyddiaethau i gyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor a'r gofynion o ran Safonau'r Gymraeg.
- Rhoi adborth am unrhyw faterion sy’n ymwneud â’r Gymraeg gan y gwasanaeth i’r grŵp, ac fel arall yn ôl yr angen.
- Rhoi adborth am unrhyw gwynion neu faterion sy’n ymwneud â’r Gymraeg gan ddefnyddwyr gwasanaeth i’r grŵp.
- Dosbarthu dogfennaeth berthnasol a gwybodaeth o fewn y gwasanaethau.
- Cydlynu ymateb eu gwasanaeth i’r Adroddiad Blynyddol am weithrediad Safonau’r Gymraeg.

Nid oes angen i gydlynwyr a phencampwyr siarad Cymraeg, ac mae pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am enwebu o leiaf un Cydlynydd, ac un Pencampwr, ar lefel Rheolwr Gweithredol neu uwch, i gynrychioli ei gyfarwyddiaeth.

Mae'r Pencampwr yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar lefel uwch reolwr mewn perthynas â materion penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Maen nhw hefyd yn monitro agendâu grwpiau uwch reolwyr ar gyfer eitemau sy'n ymwneud â goblygiadau Safonau'r Gymraeg ac yn cefnogi Cydlynydd Cymraeg eu gwasanaeth wrth hwyluso gweithredu Safonau'r Gymraeg o fewn eu cyfarwyddiaethau. Mae cyfarfodydd Cydlynwyr y Gymraeg yn cael eu cynnal bob mis ac yn cael eu cadeirio gan Caerdydd Ddwyieithog.

**GRŴP AELODAU CAERDYDD DDWYIEITHOG**

Mae Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog yn grŵp trawsbleidiol a sefydlwyd i gymryd rôl arweiniol o ran datblygu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Caerdydd gael gwasanaethau a chymorth yn y naill iaith neu'r llall yn gyfartal trwy waith partneriaeth gwell. Yn ystod 2022-23 cyfarfu'r grŵp bob chwarter i drafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys gweithredu Safonau'r Gymraeg, ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, datblygu a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, cyflawni'r amcanion gan gefnogi Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27, a gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ddiwygiedig y Cyngor.

Gwahoddir Fforwm **Caerdydd Ddwyieithog** a phartneriaid eraill i gyflwyno yng nghyfarfodydd Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog. Yn 2022/23, roedd y cyflwyniadau wedi cynnwys Ian Gwyn Hughes yn trafod sut mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi gosod y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn rhan ganolog o'i hunaniaeth, a chyfle i Efa Gruffudd-Jones drafod ei blaenoriaethau yn ei rôl fel y Comisiynydd y Gymraeg newydd.

**CYNLLUNIAU CYFLAWNI CYFARWYDDIAETHAU**

Rhaid i bob cyfarwyddiaeth Cyngor roi manylion am gamau gorfodi a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn eu Cynlluniau Cyflawni Adrannol. Mae'r wybodaeth ofynnol yn cynnwys disgrifiad o'r Camau Gorfodi unigol, swyddog cyfrifol y Cyngor, dyddiadau cwblhau y Camau Gorfodi, a thystiolaeth o gwblhad a roddwyd i Gomisiynydd y Gymraeg.

Caiff yr wybodaeth hon ei diweddaru yn ystod y flwyddyn wrth i Gamau Gorfodi ddod i law a'u gweithredu gan ddarparu cofnod byw o sut y maent yn cael eu gweithredu gan y Cyngor a hwyluso adrodd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg a'r ohebiaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae canllawiau sy'n cynghori swyddogion Cyngor am y gofynion ar gael ar dudalen fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog.

**UWCH DÎM RHEOLI**

Mae materion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i gyfarfodydd yr UDRh er gwybodaeth ac i alluogi gweithredu.

**Y CABINET A'R CYNGOR LLAWN**
Caiff Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Caerdydd ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor llawn er mwyn sicrhau gwaith craffu ar y lefel uchaf.

## 17. Hyrwyddo a Hwyluso'r Safonau

**CANLLAWIAU STAFF**
Er mwyn hyrwyddo a hwyluso gweithrediad y safonau, mae'r Cyngor wedi creu a diweddaru canllawiau i staff. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Crynodeb o 'Safonau Cyflawni Gwasanaeth'
- Cyfathrebu'n Ddwyieithog
- Gwasanaethau Dwyieithog Derbynfeydd
- Cynnal Cyfarfodydd yn Ddwyieithog
- Galwadau Ffôn Cymraeg
- Nodyn Canllaw: Arwyddion a Hysbysiadau Swyddogol Dwyieithog
- Canllawiau Cyfieithu
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw Camau Cyflym
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw i Drydydd Partïon
- Asesu Sgiliau Cymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol
- Gweithdrefnau Recriwtio, Cyfweld a Dethol a'r Iaith Gymraeg.

Mae'r canllawiau hyn ar gael i staff ar dudalen Fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog ac maent wedi'u hyrwyddo'n rheolaidd drwy negeseuon Gwybodaeth Staff a briff Materion y Gymraeg.

Mae arwyddion derbynfa (safon 67) a logos llofnod e-bost (safon 134) hefyd ar gael i aelodau o staff ar dudalen mewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog yn ogystal â chopi o'r safonau llawn, adroddiadau blynyddol, a'r ffurflen cais cyfieithu ar-lein.

Mae cynnwys y we a'r ffurflen cais cyfieithu wedi'u diweddaru i atgoffa staff i gynnwys y datganiadau corfforaethol i gydymffurfio â safonau 2, 3 a 7 (Gohebiaeth), 49 (ffurflenni) a 50A (dogfennau).

**BRIFF MATERION Y GYMRAEG**
Dosberthir brîff Materion y Gymraeg i staff drwy'r rhwydwaith cydlynwyr y Gymraeg. Mae'r brîff yn cynnwys cyngor polisi ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gwybodaeth am hyfforddiant Cymraeg ac erthyglau eraill sy'n ymwneud ag agenda'r Gymraeg.

**CLWB CYMDEITHASOL C4**
Mae adnodd i hyrwyddo a hwyluso digwyddiadau rhithwir Cymraeg wedi cael ei ddatblygu a'i lansio gan hyfforddwr Cymraeg mewnol y Cyngor. Cyflwynir yr adnodd ar lwyfan Microsoft Teams ac mae'n galluogi defnyddwyr i drefnu cyfarfodydd, grwpiau trafod a digwyddiadau cymdeithasol fel y gall siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gwrdd â'i gilydd i sgwrsio yn Gymraeg a gwella sgiliau iaith. Trefnwyd cyfarfod wythnosol hefyd gan diwtor Cymraeg y Cyngor.

**CAERDYDD DDWYIEITHOG: CYFIEITHU A CHYNGOR AR BOLISI**
Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cynnig gwasanaeth cyfieithu Cymraeg a chyfieithu ar y pryd llawn i bob Cyfarwyddiaeth yn y Cyngor.

Mae'r tîm yn cynnig arweiniad a chyngor i bob aelod o staff y Cyngor, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar ran y Cyngor, ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Cyngor i safonau statudol y Gymraeg.

**HYFFORDDIANT CYMRAEG**
Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i roi cyfle i'w holl aelodau staff ymgysylltu â hyfforddiant iaith Gymraeg.

Mae'r e-fodiwlau Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 ac Ymwybyddiaeth Iaith yn caniatáu i staff ddysgu geirfa ac ymadroddion cyffredin Cymraeg a darparu cyd-destun hanesyddol a diwylliannol ar gyfer yr iaith.

Mae Academi Cyngor Caerdydd hefyd wedi datblygu amrywiaeth eang o gyrsiau Cymraeg. Mae'r rhain wedi'u teilwra i ganiatáu cymaint o hyblygrwydd â phosibl i annog staff y Cyngor i gymryd rhan. Dyma'r cyrsiau a ddatblygwyd gan Academi Cyngor Caerdydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- **Mynediad Ar-lein (Cymraeg Lefel 1)** – cwrs rhithwir hunanastudio yn bennaf.

- **Mynediad (Cymraeg Lefel 1)** – cwrs rhithwir sy'n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor.

- **Sylfaen (Cymraeg Lefel 2)** – cwrs rhithwir lefel sy'n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor.

- **Rhagflas Hanner Diwrnod** – cwrs cyflwyno dan arweiniad tiwtor.

- **Canolradd (Cymraeg Lefel 3) -** cwrs sy'n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor ar gyfer dysgwyr mwy hyderus a'r rhai sy'n siarad Cymraeg ond sydd wedi colli eu hyder ar lafar.

- **Dechreuwyr Deuddydd** – cwrs rhithwir dan arweiniad tiwtor i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol cadarn.

- **CROESO Rhan 1** – cwrs rhithwir hunanastudio y gall staff ei gwblhau ar unrhyw adeg.

- **Mynediad (Cymraeg Lefel 1) Trochi** – cwrs sy'n cael ei arwain gan diwtor a gyflwynir drwy sesiwn 4 awr wythnosol.

- **Uwch (Cymraeg Lefel 4)** – cwrs sy'n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor gyda ffocws ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

- **Hyfedredd (Cymraeg Lefel 5)** – cwrs sy'n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor sy'n canolbwyntio ar Gymraeg ysgrifenedig a Chymraeg llafar mwy ffurfiol.

Darparwyd tiwtor gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynorthwyo tiwtor Cymraeg mewnol Academi Cyngor Caerdydd i gyflwyno'r cyrsiau hyn ac i gefnogi staff sy'n dysgu Cymraeg.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i roi cyfle i'w staff dderbyn hyfforddiant iaith Gymraeg ac nid oes cost unigol i staff y Cyngor, na'u cyfarwyddiaethau, ac mae staff yn cael eu credydu am amser yn mynychu cyrsiau.

**HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH IAITH**

Diwygiwyd y modiwl ymwybyddiaeth iaith yn 2020-21 a'i gyflwyno fel e-fodiwl gan lwyfan dysgu Academi Cyngor Caerdydd. Mae'n cael ei gyflwyno i'r holl staff ar hyn o bryd (gan gynnwys staff ysgolion).

Mae'r e-fodiwl yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- Cyd-destun hanesyddol y Gymraeg.
- Pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor i ddinasyddion Caerdydd.

- Rôl a chyfrifoldeb staff o ran cynnig gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.
- Asesu sut y darperir gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd i'w gwella.

**LANIARDIAU A BATHODYNNAU 'IAITH GWAITH'**

Cynhyrchir cortynnau gwddf Iaith Gwaith gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn dangos i ddefnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr eu bod yn siarad Cymraeg. Gellir gofyn i Gaerdydd Ddwyieithog am y cortynnau hyn - ynghyd â rhai dysgwyr Cymraeg - ar unrhyw adeg.